

Adolygiad Blynyddol o'r Panel Cynghori

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu gwaith y Panel Cynghori ar gyfer 2014/15. Sefydlwyd y Panel Cynghori yn dilyn adolygiad o drefniadau llywodraethu OGCC ym mis Rhagfyr 2011.
- 1.2 Dyma'r trydydd adolygiad o effeithiolrwydd y Panel ac, fel yn achos yr adolygiadau blaenorol, mae'n ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan Aelodau'r Panel yn y ffurflenni arfarnu hunanasesu a gwblhawyd ganddynt ym mis Chwefror 2016.

2. Rôl y Panel

- 2.1 Mae'r Panel Cynghori'n fforwm anstatudol a'i brif rôl yw cynorthwyo a chynghori'r Ombwdsmon i roi arweinyddiaeth a llywodraethu da ar gyfer swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Panel Cynghori hefyd yn cynnig persbectif allanol i helpu i ddatblygu polisiau ac arferion gweithio.
- 2.2 Mae'r Panel Cynghori'n rhoi cyngor a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ar:
 - weledigaeth, gwerthoedd a phwrpasau;
 - cyfeiriad strategol a chynllunio;
 - atebolrwydd i ddinasyddion am yr arian cyhoeddus mae'n ei gael;
 - rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg.
- 2.3 Corff cynghori'n unig i'r Ombwdsmon yw'r Panel Cynghori'n, ac nid yw'n gwneud ei benderfyniadau ei hun.
- 2.4 Mae'r Panel hefyd yn helpu'r Ombwdsmon i sefydlu:
 - trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl unrhyw is-bwyllgorau;
 - cyfeiriad strategol, nodau ac amcanion a thargedau OGCC;
 - polisiau busnes allweddol;
 - strategaethau a pholisiau cyflogaeth allweddol

a chraffu a sicrhau:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Busnes Blynyddol;
- dyraniad cyllideb lefel uchel;
- cyflwyniadau ar amcangyfrifon y gyllideb i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- cyfrifon adnoddau (dirprwywyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg);
- buddsoddiad cyfalaf / contractau (dros £250k) (dirprwywyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg).

2.5 Mae hefyd yn monitro ac yn adolygu:

- risg a rheolaeth fewnol (dirprwywyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg)
- perfformiad gweithredol a chyflawni;
- perfformiad ariannol;
- effeithiolrwydd strategaethau a pholisïau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn benodol mewn cysylltiad â Deddf Cydraddoldeb 2010;
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid;
- iechyd a diogelwch, a pharhad busnes.

3. Aelodaeth

3.1 Mae'r aelodau'n cynnwys:

- yr Ombwdsmon (Cadeirydd oherwydd ystyriaethau atebolrwydd cyfansoddiadol)
- hyd at chwech o aelodau allanol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol sydd eu hangen ar yr Ombwdsmon ac un a all ddod o swyddfa Ombwdsmon arall).

3.2 Mae'r Rheolwr Polisi a Chyfathrebu'n gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel; gall aelodau eraill y Tîm Rheoli fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon ond nid ydynt yn aelodau ffurfiol o Banel Cyngori OGCC.

3.3 Mae aelodau'r Panel yn cael eu recriwtio trwy ymarferion recriwtio agored, gyda'r diweddaraf o'r rhain wedi'i gynnal yn chwarter olaf 2015/16 yn dilyn penderfyniad yr Ombwdsmon i gryfhau aelodaeth y Panel (a hefyd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg).

3.4 Aelodau annibynnol allanol y Panel Cyngori trwy gydol 2015/16 oedd:

Margaret Griffiths
Bill Richardson
Sharon Warnes
Jan Williams
John Williams.

Roedd Aelodau'r Panel hefyd yn falch o groesawu Mr Jonathan Morgan i'w gyfarfod cyntaf o'r Panel Cyngori ar 16 Mawrth 2016.

4. Cyfarfodydd

4.1 Mae aelodau'r Panel wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rôl gyda'r mwyafrif â record bresenoldeb ardderchog o ran y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- 4.2 Mae'r Panel yn llunio rhaglen waith flynyddol iddo'i hun ac mae Aelodau'r Panel wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod, fel monitro cynnydd yn erbyn y targedau a geir yn y Cynlluniau Strategol a Busnes; y prif ystadegau o ran y llwyth achosion o gwynion a chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.
- 4.3 Mae Aelodau'r Panel wedi cael cyfle hefyd yn ystod y flwyddyn i gyfrannu'n gynnar at ddatblygiad y Cynllun Strategol Tair Blynedd, a buont yn cymryd rhan mewn gweithdy ym mis Medi. Bu'r Panel hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau cyfrinachol, 'in camera', ar gynigion ar gyfer ad-drefnu staff. Buont hefyd yn ystyried y drafft o'r papur amcangyfrifon ar gyfer 2016/17 cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ar 7 Hydref. Bu'r Panel hefyd yn ystyried papur drafft yn ymwneud â chyflwyno amcangyfrif atodol arfaethedig yn gysylltiedig â chostau ffitio cyfalaf, dadfeiliadau a chostau posibl achos cyfreithiol sydd wedi bod yn yr arfaeth ers amser.
- 4.4 Pwnc pwysig a fu'n cael sylw yn ystod 2015/16 oedd y posibilrwydd o ddeddfwriaeth newydd OGCC. Trwy gydol y broses, bu Aelodau'n trafod ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad i bwerau OGCC, ei adroddiad, a'r Bil OGCC Drafft a ddilynodd. Bu hefyd yn ystyried map llywodraeth leol newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru a gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gysylltiedig â chyfarfodydd cyswllt ac astudiaethau gwerth am arian.
- 4.5 Yn ystod 2015/16 cafodd y Panel hefyd nifer o 'eitemau trafod'. Roedd y rhain yn cynnwys strwythur newydd y swyddfa; data agored; a rheoli risg.
- 4.6 Rhwng cyfarfodydd, gwnaethpwyd trefniadau i Aelodau'r Panel gael copïau o'r Briff Craidd a gynhyrchir yn dilyn pob cyfarfod o'r Tîm Rheoli. Mae Aelodau'r Panel hefyd wedi cael copïau dan embargo o adroddiadau adran 16 pan oeddent yn cael eu cyhoeddi er mwyn iddynt fod yn gyfarwydd â'r cynnwys cyn unrhyw sylw yn y cyfryngau. Hefyd, cafodd copi dan embargo o adroddiad thematig yr Ombwdsmon "Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu", ei anfon at Aelodau'r Panel.

5. 10^{fed} Pen Blwydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- 5.1 Cafodd Aelodau'r Panel hefyd eu gwahodd i fod yn bresennol yn y derbyniad i ddathlu'r 10^{fed} Pen Blwydd a gynhaliwyd yn y Senedd ar 24 Chwefror 2016. Roedd hwn yn gyfle i gwrdd â nifer o randdeiliaid allweddol OGCC.

6. Eu Perthynas â Swyddfa'r Ombwdsmon

- 6.1 Unwaith eto dywedodd Aelodau'r Panel bod eu perthynas â'r Ombwdsmon a'r staff yn dda iawn ac yn bositif. Mae Aelodau'r Panel i gyd wedi dweud bod staff OGCC wedi bod yn ddigon hapus i helpu pan oedd angen ac i ddatrys unrhyw broblemau'n gyflym ac mewn modd proffesiynol.
- 4.6 Hefyd, cwblhaodd Aelodau'r Panel y trefniant i gwrdd â staff y gwahanol dimau yn y swyddfa yn ystod amser cinio (gyda'r olaf o'r rhain wedi'u cynnal ar adeg cyfarfod mis Rhagfyr).

7. Hyfforddiant

- 7.1 Yn ystod 2014 cafodd Aelodau'r Panel sesiwn hyfforddi fewnol wedi'i llunio'n bwrpasol ar 'Sgiliau Hanfodol' ar gyfer Aelodau Bwrdd ac a hwyluswyd gan Aelod Cyswllt o CIPFA. Yn ôl yr arfer, gwahoddwyd aelodau i nodi unrhyw ofynion hyfforddi ychwanegol a oedd ganddynt yn ystod 2015/16. Er na thynnwyd sylw at unrhyw ofynion penodol yn ystod y flwyddyn, bu aelodau perthnasol o'r Panel ar gwrs hyfforddi CIPFA yn ymwneud â phwyllgorau archwilio effeithiol ym mis Rhagfyr 2015.
- 7.2 Er bod Aelodau wedi bod yn ymwybodol iawn yn ystod y flwyddyn o ddatblygiadau'n gysylltiedig â phwerau newydd posibl OGCC, cynigiwyd y dylai sesiwn hyfforddi addas gael ei threfnu yn ystod 2016/17 ar gyfer hyn, pe bai deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno.

8. Ystyriaethau'r Dyfodol

- 8.1 Fel rhan o'r adolygiad hunanasesu mae rhai o Aelodau'r Panel wedi dweud ei bod yn gallu bod yn anodd weithiau cadw mewn cysylltiad â datblygiadau mwy cyffredinol yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae swyddfa OGCC wedi cyflwyno bwletin mewnol wythnosol ar gyfer staff sydd, yn ogystal â nodi pan fo'r Ombwdsmon wedi ymddangos yn y newyddion, hefyd yn cynnwys eitemau o ddiddordeb ehangach nad ydynt o reidrydd â chysylltiad uniongyrchol â gwaith y swyddfa. Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol pe byddai Aelodau'r Panel yn cael y bwletin wythnosol hwn.

9. Asesiad Cyffredinol

- 9.1 Mae'r adolygiad hunanasesu wedi cyflwyno adborth positif iawn gan holl Aelodau'r Panel o ran eu rolau a'u hamcanion eu hunain mewn cydweithrediad â'r Ombwdsmon a'i staff.
- 9.2 Roedd holl Aelodau'r Panel yn teimlo eu bod wedi gweithio'n dda â'i gilydd fel Panel a bod ymagwedd pawb wedi bod yn broffesiynol ac yn gefnogol ac wedi canolbwyntio ar y gwaith. Y farn oedd bod y Panel yn gweithio'n dda â'i gilydd fel tîm a bod eu hamrywiol sgiliau'n ategu ei gilydd. Y teimlad oedd bod Aelodau'r Panel yn parchu ei gilydd o ran y cyfraniadau roeddent yn eu gwneud. Roedd yr Aelodau o'r farn eu bod yn cyflawni eu rôl graffu mewn ffordd drylwyr ond eu bod yn adeiladol bob amser a'u bod wedi gweithredu eu cyfrifoldeb ar y cyd mewn ffordd heriol ond buddiol i OGCC. Y farn oedd bod Aelodau'n barod i gwestiynu ac i herio yn ogystal â rhoi cymorth a bod y Panel Cyngori'n fforwm ar gyfer trafodaeth lawn a gonest ar faterion perthnasol fel y nodau ac amcanion strategol. Nodwyd hefyd fod ychwanegu aelodau newydd neu gyfnewid Aelodau'n ffordd werthfawr o sicrhau nad yw'r Panel yn mynd yn rhy hunan fodlon.
